Morfa Mawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HH
☏: 01970-617996
✉: morlan.aber@gmail.com

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

CYNLLUN ARGYFWNG AR GYFER Y RHEINY SY'N LLOGI MORLAN
EMERGENCY PLAN FOR HIRERS OF MORLAN

HYSBYSIAD I'R LLOGWR

Y Llogwr yw'r person sydd wedi gwneud y trefniadau i logi ystafell(oedd) yn Morlan ar gyfer digwyddiad. Rhaid iddo benodi Person Penodedig sy'n gyfrifol am y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad ac am sicrhau eu bod yn gadael yr adeilad yn ddiogel pe ddigwydd argyfwng.

Noder:

- Mae Bocs Cymorth Cyntaf yng nghegin y Bar Coffi. Rhaid hysbysu Rheolwr Morlan am unrhyw ddamwain os gwelwch yn dda.
- Cynhelir ymchwiliad i amgylchiadau damwain ddifrifol, felly ni ddylid newid safle'r ddamwain mewn unrhyw fodd, heblaw am resymau diogelwch, nes bod personau cyfrifol yn awdurdodi hynny.
- Rhaid i'r Rheolwr, y frigâd dân, yr heddlu, ac ati, cael rhwydd hynt i fynd i bob rhan o'r adeilad yn ystod y cyfnod llogi, a disgwylir i'r Llogwr gydymffurfio yn ddi-gwestiwn gydag unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddo.
- Mewn argyfwng tân bydd y cyflenwad golau argyfwng awtomatig yn goleuo arwyddion yr holl allanfeydd tân.

CYFRIFOLDEBAU'R PERSON PENODEDIG

Cyn y digwyddiad

Rhaid i'r Person Penodedig ymgyfarwyddo â threfniant y Ganolfan yn arbennig lleoliadau pwyntiau gweithredu'r larwm tân, yr allanfeydd tân a llwybrau dianc, offer ymladd tân a Swyddfa'r Rheolwr (ble lleolir y ffôn). Atodir cynllun o'r adeilad (copïau caled yn unig).

NOTICE TO HIRER

The Hirer is the person who has booked a room (or rooms) at Morlan for an event. He/she must allocate a Designated Person who is responsible for the people attending that event and for their safe evacuation should an emergency arise.

Please note:

- A First Aid Box is available in the Coffee Bar kitchen. Please notify Morlan's Manager of any accident.
- Any serious accident will be investigated, so no changes should be made to the site of the accident, except for safety reasons, until authorisation to do so is given by a responsible person.
- The Manager, the fire brigade, police officers, etc. must have free access to all parts of the building during the hiring and the Hirer shall comply without question with any direction given by them.
- In a fire emergency the automatic emergency lighting supply will illuminate all exit signs.

RESPONSIBILITIES OF THE DESIGNATED PERSON

Before the event

The Designated Person must become familiar with the layout of the Centre especially the locations of fire alarm activation points, fire exits and escape routes, fire fighting equipment and the Manager's Office (where the phone is located). A plan of the building is attached (hard copies only).

Os bydd unrhyw bobl a adnabyddir fel pobl mewn perygl megis plant neu bobl ag anableddau yn bresennol yn y digwyddiad, dylai'r Person Penodedig sicrhau trefniadau penodol ar gyfer cael y bobl hyn allan o'r adeilad yn ddiogel. Dylid hefyd gynllunio ar gyfer ymdrin â phobl unwaith iddynt adael yr adeilad yn dilyn argyfwng, yn enwedig plant.

Noder: ni all mwy na 250 o bobl fod yn bresennol yn y Ganolfan ar unrhyw adeg.

Wrth i chi archebu lle, bydd Rheolwr Morlan yn ystyried y digwyddiadau eraill fydd yn cymryd lle yn y Ganolfan yr un pryd a bydd yn gofyn i chi rhoi amcan o'r nifer mwyaf o bobl fydd yn mynychu eich digwyddiad. Cyfrifoldeb y Llogwr yw sicrhau na fydd mwy na'r nifer hwn yn mynychu'r digwyddiad.

Yn ystod y digwyddiad

Rhaid i'r Person Penodedig sicrhau na roddir unrhyw ddodrefn na rhwystrau eraill mewn mannau fydd yn atal pobl rhag cyrraedd yr allanfeydd tân, a bod pob llwybr dianc yn glir o rwystrau a deunyddiau llosgadwy.

Ar ddechrau'r digwyddiad, dylai'r Person Penodedig gymryd cofrestr o bawb sy'n bresennol neu, onid yw hynny'n bosibl neu'n ymarferol, dylai wybod faint o bobl sy'n mynychu'r digwyddiad. Dylai hefyd hysbysu pawb sy'n bresennol am:

- y polisi dim ysmygu
- y bobl sydd yng ngofal y digwyddiad a sut i'w hadnabod
- lleoliad yr allanfeydd tân a'r llwybrau dianc a beth i wneud os digwydd argyfwng
- beth fydd yn digwydd ar ôl hynny (e.e. o ran dod yn ôl mewn i'r adeilad).

Cyfrifoldeb y Person Penodedig yw sicrhau:

- bod pawb yn dilyn y polisi dim ysmygu
- na chyneuir unrhyw fflamau noeth (e.e. canhwyllau) heb ganiatâd ac, o gynnau fflam noeth, nad oes unrhyw ddeunydd llosgadwy gerllaw

The Designated Person should ensure arrangements for the safe evacuation of people identified as being especially at risk who may be present at the event, such as those with disabilities or children. Plans should also be drawn up to deal with people once they have left the premises following an emergency, especially children.

Please note: the maximum number of people allowed in the Centre at any one time is 250.

The Manager will take account of the other events taking place at the Centre at the time of your booking and you will be asked to provide an estimate of the maximum number of people that will be attending your event. It is then the Hirer's responsibility to ensure that this number is not exceeded.

During the event

The Designated Person must ensure that no furniture or other obstacles are placed in positions that will block access to fire exits, and that all exit routes remain clear of obstructions and combustibles.

At the start of the event, the Designated Person should take a register of the people present or, if this is not possible or practical, be aware of the number of people attending the event. He/she should also notify those present about:

- the no smoking policy
- who is supervising the event and how to identify them
- location of fire exits and escape routes and what to do should an emergency arise
- what will happen after that (e.g. regarding re-entry to the building).

It is the his/her responsibility to ensure that:

- the no smoking policy is adhered to
- no naked flames are started (e.g. candles) unless authorised and, where naked flames are present, that combustible materials are kept clear

- bod lefelau sŵn yn ddigon rhesymol i beidio â boddi sŵn y larwm tân.

Os digwydd argyfwng

O ddarganfod tân, gweld mwg neu glywed arogl llosgi, rhaid i'r Person Penodedig seinio'r larwm trwy wasgu'r pwynt gweithredu agosaf.

Tra bod y larwm yn seinio, rhaid i'r Person Penodedig sicrhau bod pawb yn ei ofal yn gadael yr adeilad mewn modd digynnwrf a threfnus, trwy'r llwybr dianc agosaf, gan gymryd dim ond yr eitemau personol sydd wrth law.

Yna, rhaid i'r Person Penodedig alw'r frigâd dân ar 999 a rhoi'r cyfeiriad canlynol:

CANOLFAN MORLAN
MORFA MAWR (neu Queens Road),
ABERYSTWYTH SY23 2HH

Yn ystod oriau swyddfa, os yw Rheolwr Morlan yn bresennol, gallwch ddefnyddio ffôn y swyddfa, neu ofyn i'r Rheolwr alw'r frigâd dân.

Gellir ceisio diffodd y tân gan ddefnyddio diffoddydd tân priodol, ond ni ddylid AR UNRHYW ADEG rhoi bywyd unrhyw un mewn perygl. Rhaid rhoi blaenoriaeth i gael pawb allan o'r adeilad.

Dylai pobl ymgasglu yn y maes parcio, yn ddigon pell i ffwrdd o'r adeilad, a dylai'r Person Penodedig wirio y gellir rhoi cyfrif am bawb sydd yn ei ofal.

Wrth i'r gwasanaethau brys gyrraedd, dylai'r Person Penodedig a/neu Reolwr Morlan gyflwyno eu hunain iddynt a'u hysbysu o natur yr alwad ac unrhyw fanylion perthnasol eraill. Dylai'r Person Penodedig sicrhau nad yw unrhyw berson yn ei ofal yn rhwystro'r gwasanaethau brys mewn unrhyw ffordd, nac yn dychwelyd i'r adeilad heb ganiatâd y gwasanaethau brys.

Os yw'r argyfwng yn digwydd y tu allan i oriau swyddfa, a wnewch chi gysylltu â Carol Jenkins,

- noise levels cannot drown out the fire alarm.

In the case of an emergency

On discovering a fire, detecting smoke or a smell of burning, the Designated Person must raise the alarm by pressing the nearest activation point.

Whilst the alarm is sounding, the Designated Person must ensure that all people in his care leave the building in a calm and orderly fashion, by the nearest exit route, taking only personal items that are immediately to hand.

The Designated Person must then call the fire brigade on 999 and give the following address:

MORLAN CENTRE
QUEEN'S ROAD, ABERYSTWYTH
SY23 2HH

During office hours, if Morlan's Manager is present, you may use the office phone, or she can be asked to call the fire brigade.

An attempt can be made to extinguish the fire using an appropriate fire extinguisher. However, at NO TIME is anyone's life to be put in danger. Priority should be given to evacuating the building.

People should assemble in the car park well away from the building. The Designated Person should check that everyone in his/her charge are accounted for.

On the emergency services' arrival, the Designated Person and/or Morlan's Manager must make themselves known and inform them of the nature of the call-out and any other relevant details. The Designated Person should ensure that no-one interferes with the emergency services or re-enters the building without the approval of the emergency services.

If the emergency should occur outside office hours, please contact Carol Jenkins, Morlan

Rheolwr Morlan ar 01970-820613 neu 07900-520073, neu Alun Morris ar 01970-623464. Byddan nhw'n gallu darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol.

Bydd y Llogwr yn gorfod digolledu Morlan os nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau hyn.

Manager on 01970-820613 or 07900-520073, or Alun Morris on 01970-623464, who will be able to provide the fire brigade with any additional information that could be needed.

The Hirer will be obliged to indemnify Morlan against failure to observe these rules.

MAE LLOFNOD Y LLOGWR AR Y FFURFLEN LLOGI YN GOLYGU BOD Y LLOGWR YN CYDSYNIO I DDERBYN Y CYFRIFOLDEBAU HYN

THE HIRER'S SIGNATURE ON THE BOOKING FORM SHALL CONSTITUTE ACCEPTANCE OF THESE RESPONSIBILITIES